# Y CYNGOR, 26/02/09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol Datblygu), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Strategol Gofal), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Geraint George (Pennaeth Polisi a Pherfformiad), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Peter Evans (Uwch Rheolwr Polisi a Pherfformiad), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Morwena Edwards (Pennaeth Darparu), Ffrancon Williams (Pennaeth Prosiect Stoc Tai), Huw Merfyn Hughes (Rheolwr Prosiectau) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Anwen Davies, Gwen Griffith, Christopher Hughes, Charles Wyn Jones, John Gwilym Jones, R L Jones, W Tudor Owen, Guto Rhys Tomos ac R H Wyn Williams

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd T G Ellis

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2008 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod y Cyngor wedi penderfynu atal y Rheolau Gweithdrefn, er mwyn caniatáu i'r Is-gadeirydd gymryd y gadair, er bod y Cadeirydd dal yn bresennol yn yr ystafell, oherwydd ei fod yn prysur golli ei lais.
Yn unol â Rheol Gweithdrefn 26(i) nid oedd yr ataliad am gyfnod hwy na hyd y cyfarfod.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Mewn perthynas â'r eitem Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn I Ganiatáu Disgowntiau, adroddodd y Swyddog Monitro y dylai aelodau oedd â thŷ gwyliau yng Ngwynedd, a heb fod yn talu treth busnes, ddatgan buddiant personol yn yr eitem. Hefyd dylai unrhyw aelod oedd yn berchen tŷ oedd un wag a heb ei ddodrefnu am 6 mis ddatgan buddiant personol yn yr eitem.

(i) Datganodd y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Dewi Lewis a John Wyn Williams.

fuddiant personol yn yr eitem Prosiect Pleidlais Stoc Tai oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwrdd Cysgodol Tai;

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

Yn ogystal, datganodd y Cynghorydd Dewi Lewis fuddiant personol yng nghwestiwn y Cynghorydd Dyfrig Jones ynglŷn â throsglwyddo'r stoc tai, oherwydd ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwrdd Cysgodol Tai. Fodd bynnag nododd ei fwriad i ymateb i'r cwestiwn fel Uwch Arweinydd Datblygu.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams fuddiant personol yn yr eitemau yn ymwneud â thai Cyngor a materion gofal ac anableddau y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ei fod yn denant tŷ Cyngor a bod ei wraig sy'n anabl yn derbyn gofal cymdeithasol. Ni chymerodd ran yn y trafodaethau ac ni bleidleisiodd ar y materion.

(iii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol oherwydd y rhesymau a nodir:-

Y Cynghorydd Evie Morgan Jones yn Dyfodol Cartref Preswyl Bryn Llewelyn, Llan Ffestiniog oherwydd bod perthynas iddo yn gweithio yn y cartref;

Y Cynghorydd Linda Morgan yn Dyfodol Cartref Preswyl Bryn Llewelyn, Llan Ffestiniog oherwydd bod ei merch yng nghyfraith yn gweithio yn y cartref;

Y Cynghorydd Linda Wyn Jones yn yr eitemau Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Dibreswyl a Dadgomisiynu Gwasanaeth Erw Aur, Botwnnog oherwydd ei bod yn gweithio i Seren sy'n darparu gwasanaeth dibreswyl. Mewn perthynas ag Erw Aur, mynegodd yr aelod anfodlonrwydd mawr oherwydd bod cyfeiriad at oed y defnyddwyr yn yr adroddiad a bod hynny'n anghyfreithlon.

Y Cynghorydd Dafydd Ll Hughes yn yr eitem frys Dadgomisiynu Gwasanaeth Erw Aur, Botwnnog gan ei fod yn nyrs cymunedol – anabledd dysgu.

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn yr eitem frys, Codi Tâl am Wasanaethau Dibreswyl oherwydd bod ei dad yn derbyn y gwasanaeth

Y Cynghorydd Dylan Edwards yn yr eitem Treth Cyngor : Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau oherwydd bod ei wraig yn berchen eiddo gwag

Y Cynghorydd Bob Anderson yn yr eitem Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau oherwydd ei fod yn berchen eiddo gwag

Y Cynghorydd John Pugh Roberts yn yr eitem Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau oherwydd ei fod yn berchen tai haf

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Croesawyd yn ôl i'r Cyngor, yn dilyn cyfnod o salwch, y Cynghorwyr Trevor Edwards, Dai Rees Jones, ac Owain Williams.

(b) Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau at y Cynghorydd Gwen Griffith oedd yn absennol oherwydd salwch. Hefyd y Cynghorydd W Tudor Owen oedd yn yr ysbyty.

(c) Cyfeiriwyd at farwolaeth gyn-gynghorydd Mrs Mair Williams, Bangor a fu'n aelod o'r Cyngor hwn yn ogystal â'r cyn Cyngor Bwrdeistref Arfon. Hefyd marwolaeth diweddar gyn-gynghorydd Jack F Thomas, Caernarfon a fu'n aelod o'r Cyngor hwn yn ogystal â'r cyn Cynghorau Arfon a Gwynedd.

Mynegwyd cydymdeimlad â'r teuluoedd yn eu colled, ynghyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ch) Llongyfarchwyd "Duffy" o Nefyn ar ei llwyddiant ysgubol yn y "Brit Awards" yn Llundain yn ddiweddar.

(d) Diolchwyd yn gynnes i Dewi Rowlands, Rhys Parri, Glyn Hughes, Gareth Wyn Jones a phawb arall oedd yn gadael cyflogaeth y Cyngor yn yr wythnosau i ddod, am eu gwasanaeth clodwiw i'r Cyngor dros y blynyddoedd, a dymunwyd pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

Ategwyd diolch a dymuniadau gorau gan y Prif Weithredwr, a mynegodd dristwch o golli'r swyddi oherwydd sefyllfa ariannol ddyrys y Cyngor.

Hefyd, ar ran holl aelodau'r Cyngor, diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu gwasanaeth, a'u cydweithio gydag aelodau ar hyd y blynyddoedd, a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol.

(dd) Yn ddiweddar cynhaliwyd Gwasanaeth Coffhau'r Holocaust cyntaf yng Ngwynedd yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ym Mangor. Diolchwyd i bawb a gymerodd rhan, gan gynnwys, Y Cynghorydd John Wynn Jones (fel Maer Bangor), y Cynghorydd Dyfrig Jones a diolchwyd yn arbennig i'r Cynghorydd Charles Wyn Jones am gymryd rhan ar gymaint o fyr rybudd. Bwriedir cynnal y gwasanaeth yn flynyddol o hyn ymlaen a thaer efynnwyd am gefnogaeth iddo.

## 5 MATERION BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, o dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys fel materion brys, eitemau oedd wedi eu cyfeirio i fyny i'r Cyngor, ar ôl dosbarthu'r rhaglen, sef Codi Tâl am Wasanaethau Dibreswyl, Dyfodol Bryn Llewelyn, Blaenau Ffestiniog a Dadgomisiynu Erw Aur, Botwnnog, oherwydd y gallant effeithio ar y Strategaeth Ariannol.

## 6 CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Dyfrig Jones**

"Os yw tenantiaid Gwynedd yn pleidleisio i drosglwyddo stoc tai'r Cyngor, bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gwario £136 miliwn ar atgyweirio'r tai dros y 5 mlynedd nesaf. Pa gamau mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau y bydd adeiladwyr lleol yn gallu manteisio ar y buddsoddiad sylweddol hwn?"

**Ateb gan Uwch Arweinydd Datblygu, Y Cynghorydd Dewi Lewis**

"Diolch am y cwestiwn.

Mae'r Gwasanaeth Economi ac Adfywio ar y cyd gyda Grŵp Prosiectau Allanoli Tai yn edrych ar gyfleon i fusnesau lleol ddatblygu er mwyn manteisio ar y buddsoddiad yma.

Mae astudiaeth wedi ei gomisiynu gan Brifysgol Bangor sydd wedi asesu gallu'r sector adeiladu ar draws ardal Gwynedd a Môn I ymgymryd â'r gwaith. Mae'r astudiaeth yma hefyd wedi edrych ar wahanol fodelau caffael fyddai'n uchafu'r budd i fusnesau lleol. Mae'r swyddogion yn gwneud cyflwyniadau i'r Pwyllgorau Ardal ar hyn o bryd ar gasgliadau'r astudiaeth yma.

Os yw tenantiaid Gwynedd yn pleidleisio o blaid allanoli ac yn sefydlu cartrefi cymunedol Gwynedd bydd y Gwasanaeth Economi ac Adfywio yn trafod manylion y fframwaith gaffael gyda'r cwmni newydd er mwyn sicrhau y bydd yn mabwysiadu strategaeth gaffael fyddai'n galluogi busnesau a gweithwyr lleol i fanteisio o'r buddsoddiad.

Hefyd mae'r Cynghorwyr Brian Jones, Anne Lloyd Jones, John Wyn Williams a minnau'n aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, a bydd yn gyfle pellach i sicrhau mewnbwn.

Er mwyn cefnogi busnesau o fewn y sector adeiladu i gystadlu am y gwaith mae cyfres o weithdai yn y broses o gael eu paratoi rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd ar y cyd gydag Adeiladu Cymru (Construct Wales). Bydd hwn yn gyfrwng i ddatblygu gallu Cwmnïau Lleol i gydweithio a pharatoi tendrau cystadleuol ar gyfer y gwaith."

**Cwestiwn gan y Cynghorydd John Wynn Meredith**

"O ganlyniad i'r cwyno cyson yn y wasg leol a'r cyfryngau, yn arbennig mewn perthynas â pharcio yn Ysbyty Gwynedd, a wnaiff yr Arweinydd Portffolio egluro pa hyfforddiant a chanllawiau a roddir i wardeiniaid parcio'r Cyngor ar sut i ymdrin â'r cyhoedd?"

**Ateb y Cynghorydd W Gareth Roberts**

"Diolch am y cwestiwn.

Cyfeiriaf at eich cwestiwn ynglŷn â gorfodaeth parcio yn gyffredinol ac yn benodol yn Ysbyty Gwynedd, a hoffwn ymateb fel y canlynol;

Ers y 15fed o Ragfyr 2008, mae'r Uned Parcio wedi bod yn ymgymryd â dyletswyddau gorfodaeth parcio ar safle Ysbyty Gwynedd gan gynnwys rhai o'r meysydd parcio. Nod yr Ymddiriedolaeth Iechyd yw sicrhau bod y safle yn ddiogel i'r cyhoedd a bod safleoedd parcio ar gael i gleifion ac ymwelwyr.

Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn canmoliaeth gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd a'r cyhoedd am y gwaith gorfodaeth a wneir ac am fod y lefel o orfodaeth wedi bod yn gyson ac yn llwyddiannus hyd yma. Nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gŵyn ynglŷn â'r drefn gorfodaeth nac ymddygiad y Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn Ysbyty Gwynedd.

Tra mae bob tro lle i wella, 'rwyf yn fodlon gyda'r modd mae'r Swyddogion Sifil yn gweithredu'r trefniadau gorfodaeth ar draws y Sir, er rheoli a gwella diogelwch ar ein ffyrdd ar draws y Sir. Credaf fod y drefn yn cael ei weithredu yn deg, yn gyson ac yn gyfartal drwy Wynedd.

Gallaf gadarnhau bod yr hyfforddiant mae'r Swyddogion Gorfodaeth Sifil wedi ei dderbyn yn cydymffurfio â chanllawiau Gorfodaeth Parcio 'City & Guild' 2007 ac wedi cael hyfforddiant Datrysiad Gwrthdrawiad 2008. Mae'r cwrs yma yn cael ei ail gyflwyno yn flynyddol gan ganolbwyntio ar staff newydd a diweddaru hyfforddiant staff presennol."

**7 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR**

**BWRDD Y CYNGOR – 17 CHWEFROR, 2009**

## (A) Eitem 5 Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2009/10

Cyflwynwyd:-

(i) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau) ar strategaeth ariannol 2009/10

(ii) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2009/2010;

(iii) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y targed arbedion a'r cerrig milltir, a osodwyd;

(iv) Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, 2009 ynglŷn â'r Strategaeth Gyllidol oedd yn cynnwys argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.94% ar gyfer 2009/10;

(v) Penderfyniad drafft ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2009/2010; datganiad o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D fesul cymuned.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod rhyngweithio rhwng yr eitemau a gyfeiriwyd i fyny a'r strategaeth ariannol gan eu bod yn cyfrannu tua £800,000 tuag at y pecyn arbedion sy'n rhan o'r strategaeth. Eglurodd y bwriad i dderbyn crynodeb o'r sefyllfa ariannol gan y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau, er mwyn gosod cyd -destun ar gyfer y strategaeth ariannol, yna ymdrin â'r materion oedd wedi eu cyfeirio i fyny, cyn dychwelyd at y strategaeth ac argymhellion y Bwrdd.

Amlinellwyd y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2009/2010 gan y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau ac ymhelaethodd ar argymhellion y Bwrdd a'u goblygiadau i'r Cyngor.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, ystyriwyd y tri mater brys oedd wedi eu trafod ym Mwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, ac wedi eu cyfeirio i fyny i'r Cyngor yn unol â Rheol Gweithdrefn 21 (gweler eitemau 9(1), (2) a (3) dilynol).

Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2009, wedi argymell fel â ganlyn mewn perthynas â chyllideb 2009/10:-

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

**(i) Bod y lefel risg sydd ynghlwm â'r gyllideb yn parhau'n dderbyniol ac y dylid cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2009/10 fel y nodir yn rhan 2 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau).**

**(ii) Y dylid gostwng lefel yr arbedion y mae disgwyl i ysgolion uwchradd eu cyflawni yn 2009/10 fel y nodir yn rhan 8 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau). I'r diben hwn, penderfynwyd hefyd fod y Bwrdd yn datgan cefnogaeth i'r llythyr a anfonodd y Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion at y Cynulliad yn gresynu at y penderfyniad dirybudd i gwtogi 7% ar gyllidebau addysg ôl-16 ac yn pwyso ar y Cynulliad i anrhydeddu eu hymrwymiad gwreiddiol parthed ariannu'r sector hwn.**

**(iii) Argymell cynnydd o 3.94% yn y Dreth Gyngor fydd yn golygu darganfod arbedion o £5.446m i sicrhau cyllideb gytbwys.**

**(iv) Cwrdd â'r gofynion unwaith ac am byth o £1.329m trwy ddefnyddio £331,000 o arian Grant Cymell Perfformiad a £998,000 o falansau cyffredinol.**

**(v) Defnyddio £860,170 o falansau i bontio'r gwahaniaeth rhwng yr arbedion y byddwn wedi eu darganfod ar gyfer 2009/10 a'r arbedion sydd eu hangen"**

Hefyd mewn perthynas â'r bidiau refeniw a chyfalaf, argymhellwyd fel a ganlyn:-

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

**(i) Cymeradwyo'r bidiau a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad a chadw'r ddarpariaeth ar gyfer bidiau ar y lefel £1.5m er mwyn medru cyflwyno pecyn o fesurau i gynorthwyo dinasyddion Gwynedd gyda'r dirwasgiad. I'r diben hwn, penderfynwyd hefyd fod y Bwrdd yn sefydlu tasglu amlbleidiol o aelodau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â chamau y gellir eu cymryd i ymateb yn rhagweithiol i'r dirwasgiad.**

**(ii) Cymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad gan, felly, argymell rhaglen gyfalaf o £11.3m ar gyfer 2009/10, gan beidio â chymeradwyo unrhyw beth pellach hyd oni fydd y Cynllun Rheoli Asedau wedi'i gymeradwyo."**

ac mewn perthynas â'r arbedion, argymhellwyd fel a ganlyn:-

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

**(i) Cymeradwyo'r arbedion a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ar gyfer 2009/10;**

**(ii) Parhau i bwyso ar y gwasanaethau i gyrraedd eu targedau arbedion ar gyfer 2009/10, gan dderbyn y bydd angen cefnogaeth aelodau ar gyfer gwireddu rhai cynlluniau i arbed. "**

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2009/2010 fel a argymhellwyd gan Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror 2008 gan gytuno i gyllideb net yn 2009/10 o £211,838,690.
2. Y dylid nodi i Fwrdd y Cyngor , yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2008 gyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2009/2010 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-

(a) 48,504.69 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Bwrdd , yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.

(b) Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 503.40 | Llanegryn | 145.08 |
| Aberdyfi | 912.70 | Llanelltyd | 283.69 |
| Abergwyngregyn | 107.04 | Llanengan | 1,892.92 |
| Abermaw | 1,054.01 | Llanfair | 303.86 |
| Arthog | 595.29 | Llanfihangel y Pennant | 206.26 |
| Bala | 712.52 | Llanfrothen | 204.71 |
| Bangor | 3,703.84 | Llangelynnin | 377.68 |
| Beddgelert | 307.90 | Llangywair | 121.54 |
| Bethesda | 1,571.04 | Llanllechid | 321.05 |
| Betws Garmon | 125.12 | Llanllyfni | 1,290.47 |
| Bontnewydd | 428.97 | Llannor | 874.49 |
| Botwnnog | 411.54 | Llanrug | 1,082.64 |
| Brithdir a Llanfachreth | 393.06 | Llanuwchllyn | 295.48 |
| Bryncrug | 320.85 | Llanwnda | 739.05 |
| Buan | 218.44 | Llanycil | 189.16 |
| Caernarfon | 3,307.33 | Llanystumdwy | 843.09 |
| Clynnog Fawr | 426.89 | Maentwrog | 264.51 |
| Corris | 281.56 | Mawddwy | 324.87 |
| Criccieth | 884.79 | Nefyn | 1,341.68 |
| Dolbenmaen | 580.35 | Pennal | 203.18 |
| Dolgellau | 1,129.70 | Penrhyndeudraeth | 738.04 |
| Dyffryn Ardudwy | 783.13 | Pentir | 964.65 |
| Ffestiniog | 1,629.28 | Pistyll | 230.63 |
| Harlech | 706.50 | Porthmadog | 1,941.16 |
| Llanaelhaearn | 413.40 | Pwllheli | 1,639.04 |
| Llanbedr | 298.37 | Talsarnau | 296.85 |
| Llanbedrog | 656.70 | Trawsfynydd | 498.34 |
| Llanberis | 730.26 | Tudweiliog | 429.59 |
| Llanddeiniolen | 1,749.99 | Tywyn | 1,492.05 |
| Llandderfel | 484.07 | Waunfawr | 533.25 |
| Llandwrog | 966.84 | Y Felinheli | 1,023.27 |
| Llandygai | 936.66 | Y Ganllwyd | 80.87 |

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Bwrdd, fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2009/2010 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.

(a) £346,699,350 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.

(b) £133,732,930 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf

(c) £212,966,420 Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.

(ch)£166,779,067 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.

(d) £952.22 Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.

(dd) £1,333,530 Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf.

(e) £924.73 Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 937.64 | Llanegryn | 952.30 |
| Aberdyfi | 946.78 | Llanelltyd | 945.88 |
| Abergwyngregyn | 933.61 | Llanengan | 937.77 |
| Abermaw | 950.82 | Llanfair | 936.25 |
| Arthog | 939.01 | Llanfihangel y Pennant | 944.12 |
| Bala | 947.89 | Llanfrothen | 942.32 |
| Bangor | 989.70 | Llangelynnin | 940.62 |
| Beddgelert | 942.59 | Llangywair | 939.54 |
| Bethesda | 955.80 | Llanllechid | 933.30 |
| Betws Garmon | 930.32 | Llanllyfni | 951.03 |
| Bontnewydd | 949.21 | Llannor | 937.31 |
| Botwnnog | 934.45 | Llanrug | 941.36 |
| Brithdir a Llanfachreth | 943.81 | Llanuwchllyn | 940.30 |
| Bryncrug | 941.52 | Llanwnda | 947.33 |
| Buan | 941.90 | Llanycil | 938.08 |
| Caernarfon | 981.31 | Llanystumdwy | 937.18 |
| Clynnog Fawr | 938.08 | Maentwrog | 937.21 |
| Corris | 942.84 | Mawddwy | 937.04 |
| Criccieth | 956.38 | Nefyn | 949.65 |
| Dolbenmaen | 941.96 | Pennal | 942.45 |
| Dolgellau | 961.91 | Penrhyndeudraeth | 969.44 |
| Dyffryn Ardudwy | 948.99 | Pentir | 950.65 |
| Ffestiniog | 963.70 | Pistyll | 944.24 |
| Harlech | 941.72 | Porthmadog | 948.05 |
| Llanaelhaearn | 941.66 | Pwllheli | 961.34 |
| Llanbedr | 944.84 | Talsarnau | 951.68 |
| Llanbedrog | 941.48 | Trawsfynydd | 947.81 |
| Llanberis | 945.27 | Tudweiliog | 936.83 |
| Llanddeiniolen | 930.44 | Tywyn | 951.54 |
| Llandderfel | 935.06 | Waunfawr | 935.72 |
| Llandwrog | 949.04 | Y Felinheli | 945.25 |
| Llandygai | 942.84 | Y Ganllwyd | 955.64 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn **Atodiad 1,** sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.

4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2009/2010 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 130.32 | 152.04 | 173.76 | 195.48 | 238.92 | 282.36 | 325.80 | 390.96 | 456.12 |

5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn **Atodiad 2** ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2009/2010 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.

(ii) **Eitem 6 - Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Datganiad Polisi a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a Strategaeth Fuddsoddiad Blynyddol ar gyfer 2009/10.**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Addasu un ffigur ar ben yr ail dudalen o Atodiad C, sef yr uchafswm arian a argymhellir ei adnau gyda'r gymdeithas adeiladu 'Nationwide' yn 2009/10, i fod yn £15m.**

**(b) Fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2009/10.**

(iii) <u>**Eitem 7 - Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn I Ganiatáu Disgowntiau**</u>

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

Croesawyd yn fawr y polisi i beidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag gan ei fod arf ychwanegol ar gyfer annog dod ag anheddau gwag yn ôl i ddefnydd.

**PENDERFYNWYD fod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2009/2010:-**

**(i) yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998**

**(ii) yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C, sef eiddo sy'n ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis)**

## 9 EITEMAU BRYS - CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

## (A) BWRDD Y CYNGOR – 17 CHWEFROR 2009

### (1) <u>Eitem 14 Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Dibreswyl</u>

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror 2009 ynglŷn â chynyddu tal am ofal dibreswyl o £8 yr awr I £12 yr awr, sef cyfartaledd Gogledd Cymru ynghyd â chofnod o benderfyniad y Bwrdd, sef:-

**PENDERFYNWYD**

**(i) cynyddu'r tâl am ofal dibreswyl i £12 yr awr;**

**(ii) gofyn i'r swyddogion ymchwilio ymhellach i effaith dileu'r uchafswm tâl ar y defnyddwyr a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd.**

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhellion y Bwrdd.

(i) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r maes gan Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol.

(ii) Mynegodd aelod bryder dwys bod yr argymhellion â goblygiadau pellgyrhaeddol i unigolion bregus ac anghenus. Roedd yn gwbl wrthwynebus i gynyddu'r tal 50%. Pwysodd am gefnogaeth i godi'r ffi 25% i £10 ac adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn. Pwysleisiodd ei fod yn llawn ymwybodol o sefyllfa ariannol ddyrys y Cyngor, ond roedd o'r farn bod y Cyngor yn chwilio am arbedion yn y llefydd anghywir.

Ymhellach nododd bod ymgynghori wedi mynd rhagddo gyda chymdeithasau ac unigolion, bod y rhelyw yn anhapus gyda'r cyfeiriad yn y maes, ond bod eu barn wedi'i anwybyddu.

(iii) Eglurwyd bod y Bwrdd, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddyrys, a'r angen i'r gwasanaeth sicrhau arbedion, wedi penderfynu codi'r tâl am ofal dibreswyl o £8 yr awr i £12 yr awr, sef cyfartaledd Gogledd Cymru.

Nodwyd bod newid criteria mynediad at y gwasanaeth, yn hytrach na chodi'r ffi yn bosib. Fodd bynnag, nid oedd gefnogaeth i hyn oherwydd ei effaith ar y defnyddwyr. Pwysleisiwyd bod raid edrych ar y darlun cyflawn ac y byddai sybsidi yn parhau hyd yn oed ar ôl codi'r ffi ac na fyddai pawb yn talu'r uchafswm. Nodwyd bod lefel y tâl wedi llithro i'r fath raddau, oherwydd amharodrwydd aelodau i gynyddu'r ffi mewn blynyddoedd diweddar.

Pwysleisiwyd y byddai rhaid darganfod arbedion o rywle arall o fewn y gwasanaeth os na chynyddir y tal i £12.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i godi'r ffi am ofal dibreswyl i £10 yr awr ac adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

**O blaid: (17)** Y Cynghorwyr Bob Anderson, Trevor Edwards, Keith Greenly-Jones, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, Aeron M Jones, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, W Roy Owen, Peter Read, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn: (41)** Y Cynghorwyr E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, Arwel Pierce, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, Gareth Roberts, Ioan Thomas, Ann Williams a J.W.Williams.

**Atal pleidlais (0):**

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol

Ni chymerodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ran yn y drafodaeth ac ni bleidleisiodd ar y mater.

**PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef:-**
**(i) cynyddu'r tâl am ofal dibreswyl i £12 yr awr;**
**(ii) Gofyn i'r swyddogion ymchwilio ymhellach i effaith dileu'r uchafswm tâl ar y defnyddwyr a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**(2) Eitem 18 - Dyfodol Cartref Bryn Llewelyn, Llan Ffestiniog**

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Darparu a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror 2009 ynglŷn â dyfodol Bryn Llewelyn fel cartref preswyl ynghyd â chofnod o benderfyniad y Bwrdd, sef:-

**PENDERFYNWYD dod a defnydd presennol Bryn Llewelyn fel cartref preswyl i ben.**

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhellion y Bwrdd.

(i) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15 cyflwynwyd deiseb gan y Cynghorydd Linda Wyn Jones, wedi ei harwyddo gan dros 1000 o unigolion yn gwrthwynebu unrhyw fwriad gan swyddogion Cyngor Gwynedd i gau Cartref Bryn Llewelyn a'u bod yn symud ymlaen i fuddsoddi yn y cartref er mwyn ei warchod i'r dyfodol.

Derbyniodd y Cadeirydd y ddeiseb ar ran y Cyngor ac adroddodd y byddai'n eu cyflwyno i'r swyddogion perthnasol.

(ii) Nodwyd hefyd bod llythyrau i law oddi wrth breswylwyr Bryn Llewelyn yn nodi eu dymuniad cryf i aros yn y cartref.

(iii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r eitem gan Arweinydd Portffolio Darparu.

Eglurwyd bod y Bwrdd wedi penderfynu dod â defnydd presennol Bryn Llewelyn fel cartref preswyl i ben, oherwydd bod darpariaeth breswyl ddigonol yn yr ardal, a bod datblygiadau yng nghartref Bryn Blodau, ynghyd â chynllun i gael tai gofal ychwanegol yn yr ardal.

Nodwyd bod gor ddarpariaeth preswyl yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a bod ymchwil yn dangos bod y galw am ofal preswyl yn gostwng oherwydd bod pobl hŷn yn byw'n annibynnol yn hirach. Yn ogystal, roedd cost uned Bryn Llewelyn llawer yn uwch na'r tâl safonol. Eglurwyd bod ystyriaeth wedi ei roddi i'r posibilrwydd o newid cofrestriad Bryn Llewelyn i gofrestriad categori deuol ond byddai'n golygu costau ychwanegol sylweddol.

Pwysleisiwyd na fydd y cartref yn cau yn syth, ac y byddai proses o asesu anghenion y trigolion yn mynd rhagddo.

(iii) Mynegwyd gwrthwynebiad cryf gan yr aelod lleol. Nododd ei bod wedi galw am newid ac addasu'r cartref droeon mewn blynyddoedd diweddar, bod arian mawr yn cael ei wario ym Mryn Blodau, tra bod cartref Bryn Llewelyn yn cael ei anwybyddu. Pwysleisiodd nad oedd ewyllys i gadw'r cartref ar agor.

Ychwanegodd fod angen mwy o ofal nyrsio yn lleol oherwydd bod pobl oedrannus yr ardal yn gorfod cael gofal oddi allan i'r sir. Galwodd unwaith eto am droi'r cartref yn un â chofrestriad deuol.

Ategwyd gwrthwynebiad yr aelod lleol gan nifer o aelodau. Pwysleisiwyd y byddai trigolion Bryn Llewelyn yn colli eu cartref pe byddai'n cau, a nodwyd bod sylwadau'r ymgynghori wedi'u hanwybyddu.

(v) Ymhelaethodd y Prif Weithredwr ar y sefyllfa yng nghyd-destun yr Adroddiad Adolygiad ar y Cyd, a goblygiadau posibl pe byddai'r Cyngor yn penderfynu peidio cau Bryn Llewelyn.

Eglurodd bod yr Arolygwyr yn feirniadol iawn o'r Cyngor am nad oedd yn barod i gymryd penderfyniadau anodd a moderneiddio gwasanaethau. Oni bai bod tystiolaeth bod y Cyngor yn barod i arwain newid, a sicrhau darpariaethau sy'n addas ar gyfer y presennol, eglurodd bod risg o ymyrraeth gan yr Arolygaeth.

Roedd pawb yn cytuno bod y gwasanaeth yn ardderchog ym Mryn Llewelyn, a bod yno awyrgylch gartrefol a chroesawgar. Fodd bynnag nodwyd bod angen moderneiddio gwasanaethau, a sicrhau gwerth am arian o'r buddsoddiad mae'r Cyngor yn ei wneud yn y maes, yn unol â'r hyn a nodir yn yr Adroddiad Adolygiad ar y Cyd.

Diolchwyd i waith trwyadl yr aelod lleol, y Cynghorydd Linda Wyn Jones yn ei hymdrechion i geisio sicrhau dyfodol y cartref. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorwyr Gwilym Euros Roberts a Dafydd Lloyd Hughes am eu gwaith a'u cefnogaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gadw Bryn Llewelyn ar agor trwy wneud newidiadau yno ar gyfer gofal nyrsio.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

**O blaid: (28)** Y Cynghorwyr Bob Anderson, E T Dogan, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, Aeron M Jones, Linda Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Dewi Owen, W Roy Owen, Peter Read, Dafydd W Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn: (29)** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, Arwel Pierce, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Gareth Roberts, Ioan Thomas a J.W.Williams,

**Atal pleidlais (4):** Y Cynghorwyr Huw Edwards, J W Meredith, Caerwyn Roberts ac Ann Williams

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef, dod a defnydd presennol Bryn Llewelyn fel cartref preswyl i ben.**

**(3) Eitem 17 - Rhesymoli Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu Dwyfor - Rhan 1 - Dadgomisiynu Darpariaeth Erw Aur, Botwnnog**

(a) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(b) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar resymoli gwasanaethau dydd anableddau dysgu yn ardal Dwyfor drwy ddadgomisiynu darpariaeth Erw Aur, Botwnnog ynghyd â chofnod o benderfyniad y Bwrdd, sef:-

**PENDERFYNWYD**

**i) Cytuno i resymoli gwasanaethau dydd yn ardal Dwyfor trwy gyflwyno rhybudd i ddadgomisiynu darpariaeth Erw Aur, Botwnnog ar 31 Mawrth, 2009**

**ii) ystyried dyfodol yr adnodd o safbwynt datblygu'r economi gan edrych ar botensial ehangach.**

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhellion y Bwrdd.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r eitem gan Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol.

Eglurwyd bod Bwrdd y Cyngor wedi penderfynu dadgomisiynu darpariaeth Erw Aur oherwydd bod nifer y defnyddwyr oedd yn derbyn gwasanaeth Erw Aur wedi gostwng i chwech, gyda'r cyfan ohonynt yn mynd yno yn rhan amser. Hefyd gwelwyd gostyngiad yn y galw am y gwasanaeth mewn blynyddoedd diweddar ac ni ragwelir y bydd y ddarpariaeth yn addas i ateb anghenion defnyddwyr ifanc. Hefyd roedd cyfleoedd mewn gwasanaethau dydd eraill gan y Cyngor.

Adroddodd yr aelod lleol, bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn derbyn y dylid gwneud ymchwil pellach i ddarpariaeth anabledd dysgu erbyn hyn, gan gynnwys y ddarpariaeth ym Mhen Llyn, ac na ddylid penderfynu ar ddyfodol Erw Aur ar hyn o bryd

Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar welliant i beidio penderfynu ar ddyfodol Erw Aur, Botwnnog hyd oni fydd y gwaith ymchwil ar foderneiddio'r gwasanaeth wedi ei gwblhau.

Pasiwyd y gwelliant ac adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol, a phleidleisiwyd ar y cynnig newydd.

**PENDERFYNWYD peidio penderfynu ar ddyfodol Erw Aur, Botwnnog hyd oni fydd y gwaith ymchwil i foderneiddio'r gwasanaeth dydd anableddau dysgu wedi ei gwblhau.**

**10 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2009/10**

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2009/10.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ddyddiau hyfforddiant oedd wedi eu cynnwys yn nyddiadur y Cyngor am y tro cyntaf. Eglurodd ei bod yn anodd dod o hyd i ddyddiadau cyfleus, a gofynnodd i'r aelodau nodi'r dyddiadau a neilltuo'r diwrnod cyfan ar gyfer yr hyfforddiant.

Nodwyd sylwadau Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Dwyfor, na fyddai Is-bwyllgor Ymweld Dwyfor yn cyfarfod yn ystod wythnos yr Eisteddfod pe byddai angen iddo gyfarfod yn ystod mis Awst.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyddiadur cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2009/10.**

**11 PROSIECT PLEIDLAIS STOC TAI – ADRODDIAD YR YMGYNGHORIAD A THENANTIAID Y CYNGOR A PHRYDLESWYR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Prosiect Pleidlais Stoc Tai ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y ddogfen gynnig ac i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i gamau nesaf y broses sef y bleidlais ffurfiol.

Adroddodd y Pennaeth ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sylwadau a wnaed yn ystod ymgynghoriad Cam 1, ystyried newidiadau posibl i'r ddogfen a phenderfynu a ddylid symud ymlaen i Gam 2 yn y broses ymgynghori ac a ddylid cynnal pleidlais ymysg tenantiaid

(a) Nododd aelod ei fod yn siomedig o ddeall bod y tîm prosiect wedi curo drysau ar y Sul. Hefyd roedd ar ddeall eu bod yn gofyn i denantiaid sut oeddynt yn bwriadu pleidleisio, a bod hyn yn groes i ysbryd y ddogfen.

Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol Gofal, bod ymdrechion i ymweld â chartref pob tenant i gadarnhau bod y Ddogfen Gynnig wedi'i dderbyn, i ymateb i unrhyw gwestiwn neu sylw ac i'w hatgoffa o bwysigrwydd eu pleidlais. Nododd nad oedd yn ymwybodol bod y gwaith wedi ei gyflawni ar y Sul, a gofynnodd i aelodau gysylltu ag ef i gyflwyno tystiolaeth.

(b) Cyfeiriodd aelod at lythyr oedd wedi dodi i'w sylw, oedd yn cyhuddo'r Cyngor o gynnal ymgyrch unochrog trwy annog trosglwyddo'r stoc tai. Nododd bod y llythyr yn dwyn anfri ar y Cyngor a nododd ei fwriad i drosglwyddo'r ohebiaeth i sylw'r Uned Gyfreithiol.

Roedd rhai aelodau, hefyd o'r farn bod y dadleuon yn unochrog a'r ddogfen gynnig yn anghytbwys, Roedd eraill o'r farn mai profiadau personol tenantiaid fydd y prif ddylanwad ar y bleidlais.

Adroddodd y swyddogion eu bod yn cydymdeimlo gydag aelodau, oedd o'r farn bod y dadleuon yn unochrog. Eglurwyd bod yr holl sefyllfa'n unochrog. Atgoffwyd yr aelodau, nad oedd gan y Cyngor adnoddau ar gyfer cwrdd â Safon Ansawdd Cymru erbyn 2012, a bod y Llywodraeth wedi datgan mai datganoli'r stoc oedd yr unig ddewis er mwyn cwrdd â'r safon angenrheidiol. Pwysleisiwyd bod y swyddogion wedi ceisio cyflwyno'r ddwy ochr mor ffeithiol â phosibl.

(c) Mynegwyd rhwystredigaeth gan rai aelodau am nad oeddynt yn cael datgan barn ynglŷn â'r sefyllfa, a'u bod yn ansicr ynglŷn â rôl a hawl aelod wrth drafod gyda thenantiaid.

Mewn ymateb, adroddodd y Swyddog Monitro ei bod wedi dosbarthu nodyn yn crynhoi eu hawliau yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Hydref 2008. Eglurodd bod gan aelodau ddyletswydd i egluro safbwynt y Cyngor a bod ganddynt hawl trafod gyda thenantiaid, ond nad oedd ganddynt hawl i ddylanwadu arnynt. Fodd bynnag eglurodd y bydd y sefyllfa'n newid os fydd y Cyngor yn penderfynu symud i bleidlais, ac yn sgil hyn, adroddodd ei bwriad i ysgrifennu at yr aelodau i egluro'u sefyllfa mewn perthynas â thrafod gyda thenantiaid.

(ch) Gofynnodd y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, Ward Marchog, Bangor a Gethin Glyn Williams, Ward Brithdir a Llanfachraeth am dderbyn rhestr o dai yn eu wardiau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Rhoddwyd cyfle helaeth i aelodau holi swyddogion ynglŷn ag ystyriaethau cyffredinol yn y maes, ac ymatebodd y swyddogion i'r ymholiadau a'r pryderon.

**PENDERFYNWYD**

1 **Nodi ymatebion tenantiaid a phrydleswyr ag Atodiad 1 i adroddiad y Pennaeth;**

2 **Cyhoeddi llythyr Cam 2 ffurfiol i denantiaid diogel a rhagarweiniol y Cyngor yn unol ag Atodiad 2 i adroddiad y Pennaeth yn cadarnhau canlynol:-**
   - **(i) Telerau cynnig y Cyngor fel y'u nodir yn y Ddogfen Gynnig ffurfiol (Cam 1);**
   - **(ii) Hawl Tenantiaid i gyfathrebu gwrthwynebiadau i gynigion y Cyngor i Lywodraeth y Cynulliad o fewn wyth niwrnod ar hugain i'r Llythyr Cam 2;**
   - **(iii) Gallu Llywodraeth y Cynulliad i wrthod caniatâd os yw mwyafrif o'r tenantiaid sy'n cael eu heffeithio yn dymuno i'r trosglwyddo peidio mynd yn ei flaen.**

3 **Comisiynu "Electoral Reform Ballot Services" Cyf cyn gynted â phosib i gynnal pleidlais ffurfiol ymysg tenantiaid gyda golwg ar y cynnig i drosglwyddo i Gartrefi Cymunedol Gwynedd**.

## 12 PROSIECT AMGYLCHEDD O ANSAWDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd i geisio hawl i ddirprwyo cyfrifioldebau am wasanaethau penodol i Gynghorau Cymdeithas a Thref yn ardal Penllyn, Bala.

Adroddwyd mai nod y Prosiect oedd hwyluso gwelliannau ffisegol yn yr amgylchedd adeiledig yng Ngwynedd, gan ganolbwyntio ar y mannau agored cyhoeddus oddi fewn ac o amgylch trefi a phentrefi'r Sir, a chreu amgylchedd iach, diogel, glân a deniadol.

Eglurwyd bod gwella cydweithio gydag asiantaethau eraill a Chynghorau Cymdeithas a Thref yn rhan o'r prosiect, bod nifer o gamau wedi eu cymryd i gyflawni hyn, a bod Cynllun Peilot Penllyn, Bala yn ddatblygiad cyffrous i wella cydweithio. Eglurwyd ymhellach bod angen penderfyniad y Cyngor llawn i ddirprwyo cyfrifoldeb am wasanaethau penodol o'r Cyngor i gorff arall.

Diolchodd aelod lleol Llanuwchllyn i'r Cyngor am gyflwyno'r cyfrifoldebau'n raddol, a thrwy hynny, lleddfu ofnau, ac ennyn brwdfrydedd i'r gwaith yn lleol. Fodd bynnag, roedd yn bryderus bod disgwyl i'r Bartneriaeth fod yn gyfrifol am ei gostau gweinyddol, ac awgrymodd y dylai'r Cyngor basio peth o'r arbedion ymlaen, er mwyn sicrhau gweinyddiaeth effeithiol a lleihau pwysau ar adnoddau'r Cyngor Cymuned a Thref.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau bod y cynllun busnes wedi ei sefydlu ar sail costau'r gwasanaeth a'r ffaith y bydd y cynghorau'n ymgymryd â'r costau gweinyddol. Awgrymodd bod y grŵp yn rhoddi sylw pellach i'r mater yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, awdurdodi sefydlu Cytundeb gyda'r pum Cyngor yn ardal Penllyn, Bala i ddirprwyo cyfrifoldebau am ddarparu'r gwasanaethau canlynol:**

- **meysydd chwarae**
- **toiledau cyhoeddus**
- **dodrefn stryd**
- **llwybrau cyhoeddus**
- **parciau a thiroedd agored (Tomen y Bala)**

**16 RHYBUDD O GYNNIG**

(a)

(i) Cyflwynwyd – rhybudd o gynnig a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd Louise Hughes, o dan Reol Gweithdrefn 13, ac a arwyddwyd gan y nifer priodol o aelodau, o dan Reol Gweithdrefn 18(1), ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Cred y Cyngor yma bod y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn wasanaeth hanfodol ar gyfer y cyhoedd a chydnabyddwn y byddai eu cau yn cael effaith ymarferol ar yr henoed, pobol anabl, a theuluoedd ifanc. Hefyd, fod gan y Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd a hylendid y cyhoedd. Felly, ble nad oes modd gwneud trefniant arall, bydd y Cyngor hwn yn darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn cadw'r toiledau cyhoeddus presennol o fewn y Sir ar agor"**

(ii) Adroddwyd, er gwybodaeth, bod y Cyngor hwn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2008, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef**

**(i) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth;**

**(ii) Gofyn i'r Gweithgor symud ymlaen i wneud asesiad cynhwysfawr o holl doiledau cyhoeddus y sir, gan wyntyllu pob posibilrwydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sir, yn ogystal ag edrych ar anghenion lleoliadau strategol, gyda golwg i uwchraddio'r darpariaethau hynny;**

**(iii) Gofyn i'r Gweithgor ymchwilio i gynllun y Cynulliad i annog cynghorau i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus ;**

**(iv) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.**

**(b) Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynulliad ystyried ymestyn ei gynllun sy'n hwyluso cydweithio gyda busnesau i ganiatáu'r cyhoedd ddefnyddio toiledau sydd yn arferol wedi eu darparu ar gyfer cwsmeriaid yn unig, i gynnwys cynghorau cymuned a thref iddynt hwy hefyd fod yn gymwys i dderbyn arian o'r cynllun i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus ac i'w cadw ar agor.**

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau ar gyfer trafodaeth ar y rhybudd o gynnig.

(iv) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15, cyflwynwyd deiseb gan y Cynghorydd Louise Hughes , wedi ei harwyddo gan rhai cannoedd o unigolion yn gwrthwynebu cau'r toiledau cyhoeddus.

Derbyniodd y Cadeirydd y deisebau ar ran y Cyngor ac adroddodd y byddai'n eu cyflwyno i'r swyddogion perthnasol.

(v) Ymhelaethodd yr aelod ar ei chynnig. Pwysleisiodd y byddai cau'r toiledau'n effeithio ar **bob** carfan o gymdeithas, ac y byddai'r Cyngor yn esgeuluso iechyd y cyhoedd pe

byddai'n eu cau. Cyfeiriodd at dorri deddfau Gwahaniaethau ar sail Anabledd a Hawliau Dynol a phwysodd am gefnogaeth yr aelodau i'w cadw ar agor.

Nododd amryw gefnogaeth i'r cynnig gan ategu'r pryder y byddai'r newidiadau'n fygythiad i iechyd cyhoeddus ac yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion Gwynedd ac ymwelwyr i'r sir.

(vi) Cynigiodd Uwch Arweinydd Amgylchedd y dylid caniatáu cyfnod pellach hyd at 31 Hydref 2009, ar gyfer ymgynghori trwyadl i geisio cael datrysiad lleol i'r problemau, ond ble nad oedd modd gwneud trefniant arall, bod y ddarpariaeth yn cael ei gwtogi neu ei gau yn ôl yr angen , ar 31 Hydref 2009

Ymhelaethodd yr aelod ar ei welliant. Pwysleisiodd bod gan y Cyngor nifer uchel o doiledau o gymharu â siroedd eraill, bod cyflwr llawer ohonynt yn wael iawn, a'u bod yn dreth ar adnoddau'r Cyngor. Cyfeiriwyd at broblem ariannol ddyrys y Cyngor a'r angen i ddarganfod arbedion sylweddol.

Eglurwyd bod y gwasanaeth eisoes wedi dod i gytundeb gydag amryw o gyrff, a bod trafodaethau'n parhau gydag eraill. Pwysleisiodd y bydd y gwelliant yn ymestyn y cyfle i drafod ymhellach gydag aelodau etholedig, cynghorau cymuned, chyrff a mudiadau er mwyn trafod opsiynau, hyrwyddo cydweithio ac uchafu cyfleon posibl.

Pe wrthodir y gwelliant, eglurodd yr Uwch Arweinydd y byddai rhaid i'r gwasanaeth dorri ar weithgareddau eraill er mwyn canfod yr arbedion angenrheidiol.

Nodwyd amryw wrthwynebiad i'r gwelliant, gan nodi bod ymgynghori wedi mynd rhagddo eisoes, ac nad oedd sefyllfa ariannol rhai cynghorau cymuned yn caniatáu iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

(vii) Cyfeiriodd aelod at doiledau oedd wedi cau yn ei ardal ef a bod derbynion cyfalaf o werthiant y toiledau wedi mynd i goffrau canolog y Cyngor. Awgrymwyd y dylid clustnodi'r arian ar gyfer gwella cyflwr y toiledau gyda golwg i'w trosglwyddo i'r cynghorau cymuned.

(viii) Cynigwyd ac eiliwyd gwelliant canlynol:-

*"Cred y Cyngor yma bod y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn wasanaeth hanfodol ar gyfer y cyhoedd a chydnabyddwn y byddai eu cau yn cael effaith arbennig ar yr henoed, pobl anabl a theuluoedd ifanc. Hefyd fod gan y Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd a hylendid y cyhoedd. Felly caniateir cyfnod pellach hyd at 31 Hydref 2009, ar gyfer ymgynghori trwyadl ig eisio cael datrysiad lleol i'r problemau, ond ble nad oes modd gwneud trefniant arall, bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwtogi neu ei gau yn ôl yr angen , ar 31 Hydref 2009, er mwyn cyflawni'r arbediad ariannol sydd wedi ei gytuno eisoes"*

Pleidleisiwyd ar y gwelliant a chafodd ei gario, ac adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant fel ag yr oedd wedi ei wella'n cymryd lle'r cynnig gwreiddiol, a phleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig.

(ix) Cynigiwyd gwelliant pellach i gau toiledau cyhoeddus lle'r oedd cytundeb a chydsyniad lleol i wneud hynny, ond i beidio cau toiledau cyhoeddus lle nad oedd cytundeb lleol i hynny. Cynghorwyd y Cadeirydd nad oedd y gwelliant yn ddilys oherwydd ei fod yn negyddu'r cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella, ac ni chaniatawyd y gwelliant.

(x) Cyfeiriwyd at y ffaith bod y mater oedd gerbron wedi derbyn sylw manwl yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, a gofynnwyd i'r Gweithgor Cyfansoddiad edrych ar y gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd materion yn dod yn ôl i'r Cyngor dro ar ôl tro.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r cynnig canlynol:-**
**"Cred y Cyngor yma bod y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn wasanaeth hanfodol ar gyfer y cyhoedd a chydnabyddwn y byddai eu cau yn cael effaith arbennig ar yr henoed, pobl anabl a theuluoedd ifanc. Hefyd fod gan y Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd a hylendid y cyhoedd. Felly caniateir cyfnod pellach hyd at 31 Hydref 2009, ar gyfer ymgynghori trwyadl ig eisio cael datrysiad lleol i'r problemau, ond ble nad oes modd gwneud trefniant arall, bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwtogi neu ei gau yn ôl yr angen , ar 31 Hydref 2009, er mwyn cyflawni'r arbediad ariannol sydd wedi ei gytuno eisoes"**

**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol I weithredu ar y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi trosglwyddo'r pwerau angenrheidiol o San Steffan i'r Cynulliad er mwyn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, rhoi hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau, a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith i amddiffyn yr hawliau hyn"**

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu'r cynnig sef "bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi trosglwyddo'r pwerau angenrheidiol o San Steffan i'r Cynulliad er mwyn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, rhoi hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau, a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith i amddiffyn yr hawliau hyn"**

**(ii) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i weithredu ar y cynnig.**

(c) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Yn dilyn y cyhoeddiad fod carchar newydd ar gyfer Cymru i'w gael ei leoli yng Nghaernarfon, credaf felly y dylid sefydlu yn ddi-oed 'sustem' neu 'academi' fyddai yn gofalu fod nifer helaeth o'n pobl ddi-waith, ac ieuenctid sydd wedi gadael yr ysgol neu ar**

**fin gwneud, yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau amrywiol fydd eu hangen gogyfer a'r cannoedd o swyddi a ddaw i'r cylch yn sgil y datblygiad."**

Diolchodd Uwch Arweinydd Portffolio Datblygu i'r Cynghorydd Owain Williams a'r aelodau am eu cefnogaeth i'r carchar, ac am y cyfle i ymateb yn ffurfiol i'r cynnig.

Eglurodd bod datblygiad y carchar yn cynnig cyfleon cyflogaeth ac economaidd sylweddol i Wynedd. Nodwyd bod posibilrwydd y bydd hyd at 700 o swyddi amrywiol llawn amser yn cael eu creu o'r newydd, a bod potensial iddo fod yn gyflogwr pwysig i bobl leol am flynyddoedd i ddod.

Roedd yn bwysig uchafu'r budd economaidd i Wynedd, a sicrhau bod pobl leol yn cael eu paratoi a'u hyfforddi ar gyfer y swyddi newydd. Eglurodd bod y gwasanaeth eisoes wedi cyfarfod gydag uwch swyddogion o fewn Adran Gyfiawnder y Llywodraeth, ac wedi derbyn gwybodaeth am y math o sgiliau fydd eu hangen ar gyfer y swyddi dan sylw.

Hefyd, eglurwyd bod trafodaethau wedi cymryd lle gyda'r Gwasanaeth Ysgolion a'r Colegau er mwyn sicrhau bod y math cywir o hyfforddiant ar gael i bobl ifanc.

Fodd bynnag, eglurwyd bod angen strwythur a threfn reolaethol glir i'r gwaith pwysig o baratoi ar gyfer y carchar, ac eglurodd yr Uwch Arweinydd ei fod wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu sefydlu ac arwain Bwrdd Prosiect i gyd-gordio'r gwaith.

Bydd y Bwrdd Prosiect yn cynnwys y partneriaid allweddol fel y Colegau, y Brifysgol, Gyrfa Cymru, y Cynulliad, Canolfan Byd Gwaith, Ysgolion, Bwrdd yr Iaith, a chynrychiolaeth o Adran Gyfiawnder y Llywodraeth. Tasg y Bwrdd Prosiect. Bydd yn rhoddi rhaglen glir amlasiantaethol ar waith - er mwyn uchafu'r budd economaidd a chyflogaeth i Wynedd yn sgil datblygiad y carchar.

Eglurwyd y bydd y Bwrdd yn ymateb yn unionyrchol i gais y Cynghorydd Owain Williams gan ofalu bod nifer helaeth o bobl ifanc y sir yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau amrywiol fydd eu hangen ar gyfer y swyddi newydd. Adroddir yn gyson i'r Pwyllgor Craffu Datblygu ar y mesurau fydd yn cael eu datblygu gan y Bwrdd Prosiect fel bod y carchar yn cael effaith positif ac arwyddocaol ar batrymau cyflogaeth leol.

Nodwyd hefyd bod y Gweithgor Sgiliau yn trafod yr anghenion er mwyn sicrhau'r budd mwyaf, a bod gwaith yn mynd rhagddo ym maes caffael er mwyn uchafu'r cyfleoedd i fusnesau lleol.

Diolchwyd i'r Uwch Arweinydd am ei ymateb. Ategwyd pwysigrwydd uchafu'r budd economaidd i'r ardal yn sgil y carchar newydd, a gyda chytundeb y Cynghorydd Owain Williams pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig canlynol oedd yn ychwanegu ac yn ymhelaethu ar ei gynnig gwreiddiol:-

*"Cadarnhau fod y Cyngor yn sefydlu Bwrdd Prosiect i arwain ar holl agweddau'r prosiect gyda chyfrifoldeb swyddog penodol ar lefel uchel. Bod angen i'r Bwrdd edrych yn benodol ar y canlynol:-*

- *Sicrhau cyflogaeth leol i'r gwaith i glirio'r safle;*
- *Sicrhau cyflogaeth leol ar y gwaith adeiladu a chyflenwyr lleol;*
- *Sicrhau bod nifer uchel iawn o'r swyddi parhaol i bobl leol;*
- *Sicrhau bod y cyflenwyr lleol yn rhan bwysig o gaffael y carchar newydd arfaethedig"*

Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith er mwyn sicrhau bod nifer uchel o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y carchar.

Diolchwyd i swyddogion ac aelodau am eu gwaith caled i sicrhau bod y carchar yn dod i'r sir.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu'r cynnig canlynol:-**
**"Cadarnhau fod y Cyngor yn sefydlu Bwrdd Prosiect i arwain ar holl agweddau'r prosiect gyda chyfrifoldeb swyddog penodol ar lefel uchel. Bod angen i'r Bwrdd edrych yn benodol ar y canlynol:-**

- **Sicrhau cyflogaeth leol i'r gwaith i glirio'r safle;**
- **Sicrhau cyflogaeth leol ar y gwaith adeiladu a chyflenwyr lleol;**
- **Sicrhau bod nifer uchel iawn o'r swyddi parhaol i bobl leol;**
- **Sicrhau bod y cyflenwyr lleol yn rhan bwysig o gaffael y carchar newydd arfaethedig"**

**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Economi ac Adfywio i weithredu ar y cynnig.**

(ch) **Adrodd yn ôl ar rybuddion o gynnig blaenorol**

(i) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Economi ac Adfywio ar gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ar 31 Gorffennaf 2008, i uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth**

(ii) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Economi ac Adfywio ar gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ar 19 Mehefin 2008, i ddatblygu maes awyr Llanbedr, Meirionnydd fel maes awyr sifil.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00 p.m. a daeth i ben am 5:20 p.m.

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 625.09 | 729.28 | 833.46 | 937.64 | 1146.00 | 1354.37 | 1562.73 | 1875.28 | 2187.83 |
| Aberdyfi | 631.19 | 736.38 | 841.58 | 946.78 | 1157.18 | 1367.57 | 1577.97 | 1893.56 | 2209.15 |
| Abergwyngregyn | 622.41 | 726.14 | 829.88 | 933.61 | 1141.08 | 1348.55 | 1556.02 | 1867.22 | 2178.42 |
| Abermaw | 633.88 | 739.53 | 845.17 | 950.82 | 1162.11 | 1373.41 | 1584.70 | 1901.64 | 2218.58 |
| Arthog | 626.01 | 730.34 | 834.68 | 939.01 | 1147.68 | 1356.35 | 1565.02 | 1878.02 | 2191.02 |
| Bala | 631.93 | 737.25 | 842.57 | 947.89 | 1158.53 | 1369.17 | 1579.82 | 1895.78 | 2211.74 |
| Bangor | 659.80 | 769.77 | 879.73 | 989.70 | 1209.63 | 1429.57 | 1649.50 | 1979.40 | 2309.30 |
| Beddgelert | 628.39 | 733.13 | 837.86 | 942.59 | 1152.05 | 1361.52 | 1570.98 | 1885.18 | 2199.38 |
| Bethesda | 637.20 | 743.40 | 849.60 | 955.80 | 1168.20 | 1380.60 | 1593.00 | 1911.60 | 2230.20 |
| Betws Garmon | 620.21 | 723.58 | 826.95 | 930.32 | 1137.06 | 1343.80 | 1550.53 | 1860.64 | 2170.75 |
| Bontnewydd | 632.81 | 738.27 | 843.74 | 949.21 | 1160.15 | 1371.08 | 1582.02 | 1898.42 | 2214.82 |
| Botwnnog | 622.97 | 726.79 | 830.62 | 934.45 | 1142.11 | 1349.76 | 1557.42 | 1868.90 | 2180.38 |
| Brithdir a Llanfachreth | 629.21 | 734.07 | 838.94 | 943.81 | 1153.55 | 1363.28 | 1573.02 | 1887.62 | 2202.22 |
| Bryncrug | 627.68 | 732.29 | 836.91 | 941.52 | 1150.75 | 1359.97 | 1569.20 | 1883.04 | 2196.88 |
| Buan | 627.93 | 732.59 | 837.24 | 941.90 | 1151.21 | 1360.52 | 1569.83 | 1883.80 | 2197.77 |
| Caernarfon | 654.21 | 763.24 | 872.28 | 981.31 | 1199.38 | 1417.45 | 1635.52 | 1962.62 | 2289.72 |
| Clynnog Fawr | 625.39 | 729.62 | 833.85 | 938.08 | 1146.54 | 1355.00 | 1563.47 | 1876.16 | 2188.85 |
| Corris | 628.56 | 733.32 | 838.08 | 942.84 | 1152.36 | 1361.88 | 1571.40 | 1885.68 | 2199.96 |
| Criccieth | 637.59 | 743.85 | 850.12 | 956.38 | 1168.91 | 1381.44 | 1593.97 | 1912.76 | 2231.55 |
| Dolbenmaen | 627.97 | 732.64 | 837.30 | 941.96 | 1151.28 | 1360.61 | 1569.93 | 1883.92 | 2197.91 |
| Dolgellau | 641.27 | 748.15 | 855.03 | 961.91 | 1175.67 | 1389.43 | 1603.18 | 1923.82 | 2244.46 |
| Dyffryn Ardudwy | 632.66 | 738.10 | 843.55 | 948.99 | 1159.88 | 1370.76 | 1581.65 | 1897.98 | 2214.31 |
| Ffestiniog | 642.47 | 749.54 | 856.62 | 963.70 | 1177.86 | 1392.01 | 1606.17 | 1927.40 | 2248.63 |
| Harlech | 627.81 | 732.45 | 837.08 | 941.72 | 1150.99 | 1360.26 | 1569.53 | 1883.44 | 2197.35 |
| Llanaelhaearn | 627.77 | 732.40 | 837.03 | 941.66 | 1150.92 | 1360.18 | 1569.43 | 1883.32 | 2197.21 |
| Llanbedr | 629.89 | 734.88 | 839.86 | 944.84 | 1154.80 | 1364.77 | 1574.73 | 1889.68 | 2204.63 |
| Llanbedrog | 627.65 | 732.26 | 836.87 | 941.48 | 1150.70 | 1359.92 | 1569.13 | 1882.96 | 2196.79 |
| Llanberis | 630.18 | 735.21 | 840.24 | 945.27 | 1155.33 | 1365.39 | 1575.45 | 1890.54 | 2205.63 |
| Llanddeiniolen | 620.29 | 723.68 | 827.06 | 930.44 | 1137.20 | 1343.97 | 1550.73 | 1860.88 | 2171.03 |
| Llandderfel | 623.37 | 727.27 | 831.16 | 935.06 | 1142.85 | 1350.64 | 1558.43 | 1870.12 | 2181.81 |
| Llandwrog | 632.69 | 738.14 | 843.59 | 949.04 | 1159.94 | 1370.84 | 1581.73 | 1898.08 | 2214.43 |
| Llandygai | 628.56 | 733.32 | 838.08 | 942.84 | 1152.36 | 1361.88 | 1571.40 | 1885.68 | 2199.96 |
| Llanegryn | 634.87 | 740.68 | 846.49 | 952.30 | 1163.92 | 1375.54 | 1587.17 | 1904.60 | 2222.03 |
| Llanelltyd | 630.59 | 735.68 | 840.78 | 945.88 | 1156.08 | 1366.27 | 1576.47 | 1891.76 | 2207.05 |
| Llanengan | 625.18 | 729.38 | 833.57 | 937.77 | 1146.16 | 1354.56 | 1562.95 | 1875.54 | 2188.13 |
| Llanfair | 624.17 | 728.19 | 832.22 | 936.25 | 1144.31 | 1352.36 | 1560.42 | 1872.50 | 2184.58 |
| Llanfihangel y Pennant | 629.41 | 734.32 | 839.22 | 944.12 | 1153.92 | 1363.73 | 1573.53 | 1888.24 | 2202.95 |
| Llanfrothen | 628.21 | 732.92 | 837.62 | 942.32 | 1151.72 | 1361.13 | 1570.53 | 1884.64 | 2198.75 |
| Llangelynnin | 627.08 | 731.59 | 836.11 | 940.62 | 1149.65 | 1358.67 | 1567.70 | 1881.24 | 2194.78 |
| Llangywair | 626.36 | 730.75 | 835.15 | 939.54 | 1148.33 | 1357.11 | 1565.90 | 1879.08 | 2192.26 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllechid | 622.20 | 725.90 | 829.60 | 933.30 | 1140.70 | 1348.10 | 1555.50 | 1866.60 | 2177.70 |
| Llanllyfni | 634.02 | 739.69 | 845.36 | 951.03 | 1162.37 | 1373.71 | 1585.05 | 1902.06 | 2219.07 |
| Llannor | 624.87 | 729.02 | 833.16 | 937.31 | 1145.60 | 1353.89 | 1562.18 | 1874.62 | 2187.06 |
| Llanrug | 627.57 | 732.17 | 836.76 | 941.36 | 1150.55 | 1359.74 | 1568.93 | 1882.72 | 2196.51 |
| Llanuwchllyn | 626.87 | 731.34 | 835.82 | 940.30 | 1149.26 | 1358.21 | 1567.17 | 1880.60 | 2194.03 |
| Llanwnda | 631.55 | 736.81 | 842.07 | 947.33 | 1157.85 | 1368.37 | 1578.88 | 1894.66 | 2210.44 |
| Llanycil | 625.39 | 729.62 | 833.85 | 938.08 | 1146.54 | 1355.00 | 1563.47 | 1876.16 | 2188.85 |
| Llanystumdwy | 624.79 | 728.92 | 833.05 | 937.18 | 1145.44 | 1353.70 | 1561.97 | 1874.36 | 2186.75 |
| Maentwrog | 624.81 | 728.94 | 833.08 | 937.21 | 1145.48 | 1353.75 | 1562.02 | 1874.42 | 2186.82 |
| Mawddwy | 624.69 | 728.81 | 832.92 | 937.04 | 1145.27 | 1353.50 | 1561.73 | 1874.08 | 2186.43 |
| Nefyn | 633.10 | 738.62 | 844.13 | 949.65 | 1160.68 | 1371.72 | 1582.75 | 1899.30 | 2215.85 |
| Pennal | 628.30 | 733.02 | 837.73 | 942.45 | 1151.88 | 1361.32 | 1570.75 | 1884.90 | 2199.05 |
| Penrhyndeudraeth | 646.29 | 754.01 | 861.72 | 969.44 | 1184.87 | 1400.30 | 1615.73 | 1938.88 | 2262.03 |
| Pentir | 633.77 | 739.39 | 845.02 | 950.65 | 1161.91 | 1373.16 | 1584.42 | 1901.30 | 2218.18 |
| Pistyll | 629.49 | 734.41 | 839.32 | 944.24 | 1154.07 | 1363.90 | 1573.73 | 1888.48 | 2203.23 |
| Porthmadog | 632.03 | 737.37 | 842.71 | 948.05 | 1158.73 | 1369.41 | 1580.08 | 1896.10 | 2212.12 |
| Pwllheli | 640.89 | 747.71 | 854.52 | 961.34 | 1174.97 | 1388.60 | 1602.23 | 1922.68 | 2243.13 |
| Talsarnau | 634.45 | 740.20 | 845.94 | 951.68 | 1163.16 | 1374.65 | 1586.13 | 1903.36 | 2220.59 |
| Trawsfynydd | 631.87 | 737.19 | 842.50 | 947.81 | 1158.43 | 1369.06 | 1579.68 | 1895.62 | 2211.56 |
| Tudweiliog | 624.55 | 728.65 | 832.74 | 936.83 | 1145.01 | 1353.20 | 1561.38 | 1873.66 | 2185.94 |
| Tywyn | 634.36 | 740.09 | 845.81 | 951.54 | 1162.99 | 1374.45 | 1585.90 | 1903.08 | 2220.26 |
| Waunfawr | 623.81 | 727.78 | 831.75 | 935.72 | 1143.66 | 1351.60 | 1559.53 | 1871.44 | 2183.35 |
| Y Felinheli | 630.17 | 735.19 | 840.22 | 945.25 | 1155.31 | 1365.36 | 1575.42 | 1890.50 | 2205.58 |
| Y Ganllwyd | 637.09 | 743.28 | 849.46 | 955.64 | 1168.00 | 1380.37 | 1592.73 | 1911.28 | 2229.83 |

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 755.41 | 881.32 | 1007.22 | 1133.12 | 1384.92 | 1636.73 | 1888.53 | 2266.24 | 2643.95 |
| Aberdyfi | 761.51 | 888.42 | 1015.34 | 1142.26 | 1396.10 | 1649.93 | 1903.77 | 2284.52 | 2665.27 |
| Abergwyngregyn | 752.73 | 878.18 | 1003.64 | 1129.09 | 1380.00 | 1630.91 | 1881.82 | 2258.18 | 2634.54 |
| Abermaw | 764.20 | 891.57 | 1018.93 | 1146.30 | 1401.03 | 1655.77 | 1910.50 | 2292.60 | 2674.70 |
| Arthog | 756.33 | 882.38 | 1008.44 | 1134.49 | 1386.60 | 1638.71 | 1890.82 | 2268.98 | 2647.14 |
| Bala | 762.25 | 889.29 | 1016.33 | 1143.37 | 1397.45 | 1651.53 | 1905.62 | 2286.74 | 2667.86 |
| Bangor | 790.12 | 921.81 | 1053.49 | 1185.18 | 1448.55 | 1711.93 | 1975.30 | 2370.36 | 2765.42 |
| Beddgelert | 758.71 | 885.17 | 1011.62 | 1138.07 | 1390.97 | 1643.88 | 1896.78 | 2276.14 | 2655.50 |
| Bethesda | 767.52 | 895.44 | 1023.36 | 1151.28 | 1407.12 | 1662.96 | 1918.80 | 2302.56 | 2686.32 |
| Betws Garmon | 750.53 | 875.62 | 1000.71 | 1125.80 | 1375.98 | 1626.16 | 1876.33 | 2251.60 | 2626.87 |
| Bontnewydd | 763.13 | 890.31 | 1017.50 | 1144.69 | 1399.07 | 1653.44 | 1907.82 | 2289.38 | 2670.94 |
| Botwnnog | 753.29 | 878.83 | 1004.38 | 1129.93 | 1381.03 | 1632.12 | 1883.22 | 2259.86 | 2636.50 |
| Brithdir a Llanfachreth | 759.53 | 886.11 | 1012.70 | 1139.29 | 1392.47 | 1645.64 | 1898.82 | 2278.58 | 2658.34 |
| Bryncrug | 758.00 | 884.33 | 1010.67 | 1137.00 | 1389.67 | 1642.33 | 1895.00 | 2274.00 | 2653.00 |
| Buan | 758.25 | 884.63 | 1011.00 | 1137.38 | 1390.13 | 1642.88 | 1895.63 | 2274.76 | 2653.89 |
| Caernarfon | 784.53 | 915.28 | 1046.04 | 1176.79 | 1438.30 | 1699.81 | 1961.32 | 2353.58 | 2745.84 |
| Clynnog Fawr | 755.71 | 881.66 | 1007.61 | 1133.56 | 1385.46 | 1637.36 | 1889.27 | 2267.12 | 2644.97 |
| Corris | 758.88 | 885.36 | 1011.84 | 1138.32 | 1391.28 | 1644.24 | 1897.20 | 2276.64 | 2656.08 |
| Criccieth | 767.91 | 895.89 | 1023.88 | 1151.86 | 1407.83 | 1663.80 | 1919.77 | 2303.72 | 2687.67 |
| Dolbenmaen | 758.29 | 884.68 | 1011.06 | 1137.44 | 1390.20 | 1642.97 | 1895.73 | 2274.88 | 2654.03 |
| Dolgellau | 771.59 | 900.19 | 1028.79 | 1157.39 | 1414.59 | 1671.79 | 1928.98 | 2314.78 | 2700.58 |
| Dyffryn Ardudwy | 762.98 | 890.14 | 1017.31 | 1144.47 | 1398.80 | 1653.12 | 1907.45 | 2288.94 | 2670.43 |
| Ffestiniog | 772.79 | 901.58 | 1030.38 | 1159.18 | 1416.78 | 1674.37 | 1931.97 | 2318.36 | 2704.75 |
| Harlech | 758.13 | 884.49 | 1010.84 | 1137.20 | 1389.91 | 1642.62 | 1895.33 | 2274.40 | 2653.47 |
| Llanaelhaearn | 758.09 | 884.44 | 1010.79 | 1137.14 | 1389.84 | 1642.54 | 1895.23 | 2274.28 | 2653.33 |
| Llanbedr | 760.21 | 886.92 | 1013.62 | 1140.32 | 1393.72 | 1647.13 | 1900.53 | 2280.64 | 2660.75 |
| Llanbedrog | 757.97 | 884.30 | 1010.63 | 1136.96 | 1389.62 | 1642.28 | 1894.93 | 2273.92 | 2652.91 |
| Llanberis | 760.50 | 887.25 | 1014.00 | 1140.75 | 1394.25 | 1647.75 | 1901.25 | 2281.50 | 2661.75 |
| Llanddeiniolen | 750.61 | 875.72 | 1000.82 | 1125.92 | 1376.12 | 1626.33 | 1876.53 | 2251.84 | 2627.15 |
| Llandderfel | 753.69 | 879.31 | 1004.92 | 1130.54 | 1381.77 | 1633.00 | 1884.23 | 2261.08 | 2637.93 |
| Llandwrog | 763.01 | 890.18 | 1017.35 | 1144.52 | 1398.86 | 1653.20 | 1907.53 | 2289.04 | 2670.55 |
| Llandygai | 758.88 | 885.36 | 1011.84 | 1138.32 | 1391.28 | 1644.24 | 1897.20 | 2276.64 | 2656.08 |
| Llanegryn | 765.19 | 892.72 | 1020.25 | 1147.78 | 1402.84 | 1657.90 | 1912.97 | 2295.56 | 2678.15 |
| Llanelltyd | 760.91 | 887.72 | 1014.54 | 1141.36 | 1395.00 | 1648.63 | 1902.27 | 2282.72 | 2663.17 |
| Llanengan | 755.50 | 881.42 | 1007.33 | 1133.25 | 1385.08 | 1636.92 | 1888.75 | 2266.50 | 2644.25 |
| Llanfair | 754.49 | 880.23 | 1005.98 | 1131.73 | 1383.23 | 1634.72 | 1886.22 | 2263.46 | 2640.70 |
| Llanfihangel y Pennant | 759.73 | 886.36 | 1012.98 | 1139.60 | 1392.84 | 1646.09 | 1899.33 | 2279.20 | 2659.07 |
| Llanfrothen | 758.53 | 884.96 | 1011.38 | 1137.80 | 1390.64 | 1643.49 | 1896.33 | 2275.60 | 2654.87 |
| Llangelynnin | 757.40 | 883.63 | 1009.87 | 1136.10 | 1388.57 | 1641.03 | 1893.50 | 2272.20 | 2650.90 |
| Llangywair | 756.68 | 882.79 | 1008.91 | 1135.02 | 1387.25 | 1639.47 | 1891.70 | 2270.04 | 2648.38 |
| Llanllechid | 752.52 | 877.94 | 1003.36 | 1128.78 | 1379.62 | 1630.46 | 1881.30 | 2257.56 | 2633.82 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllyfni | 764.34 | 891.73 | 1019.12 | 1146.51 | 1401.29 | 1656.07 | 1910.85 | 2293.02 | 2675.19 |
| Llannor | 755.19 | 881.06 | 1006.92 | 1132.79 | 1384.52 | 1636.25 | 1887.98 | 2265.58 | 2643.18 |
| Llanrug | 757.89 | 884.21 | 1010.52 | 1136.84 | 1389.47 | 1642.10 | 1894.73 | 2273.68 | 2652.63 |
| Llanuwchllyn | 757.19 | 883.38 | 1009.58 | 1135.78 | 1388.18 | 1640.57 | 1892.97 | 2271.56 | 2650.15 |
| Llanwnda | 761.87 | 888.85 | 1015.83 | 1142.81 | 1396.77 | 1650.73 | 1904.68 | 2285.62 | 2666.56 |
| Llanycil | 755.71 | 881.66 | 1007.61 | 1133.56 | 1385.46 | 1637.36 | 1889.27 | 2267.12 | 2644.97 |
| Llanystumdwy | 755.11 | 880.96 | 1006.81 | 1132.66 | 1384.36 | 1636.06 | 1887.77 | 2265.32 | 2642.87 |
| Maentwrog | 755.13 | 880.98 | 1006.84 | 1132.69 | 1384.40 | 1636.11 | 1887.82 | 2265.38 | 2642.94 |
| Mawddwy | 755.01 | 880.85 | 1006.68 | 1132.52 | 1384.19 | 1635.86 | 1887.53 | 2265.04 | 2642.55 |
| Nefyn | 763.42 | 890.66 | 1017.89 | 1145.13 | 1399.60 | 1654.08 | 1908.55 | 2290.26 | 2671.97 |
| Pennal | 758.62 | 885.06 | 1011.49 | 1137.93 | 1390.80 | 1643.68 | 1896.55 | 2275.86 | 2655.17 |
| Penrhyndeudraeth | 776.61 | 906.05 | 1035.48 | 1164.92 | 1423.79 | 1682.66 | 1941.53 | 2329.84 | 2718.15 |
| Pentir | 764.09 | 891.43 | 1018.78 | 1146.13 | 1400.83 | 1655.52 | 1910.22 | 2292.26 | 2674.30 |
| Pistyll | 759.81 | 886.45 | 1013.08 | 1139.72 | 1392.99 | 1646.26 | 1899.53 | 2279.44 | 2659.35 |
| Porthmadog | 762.35 | 889.41 | 1016.47 | 1143.53 | 1397.65 | 1651.77 | 1905.88 | 2287.06 | 2668.24 |
| Pwllheli | 771.21 | 899.75 | 1028.28 | 1156.82 | 1413.89 | 1670.96 | 1928.03 | 2313.64 | 2699.25 |
| Talsarnau | 764.77 | 892.24 | 1019.70 | 1147.16 | 1402.08 | 1657.01 | 1911.93 | 2294.32 | 2676.71 |
| Trawsfynydd | 762.19 | 889.23 | 1016.26 | 1143.29 | 1397.35 | 1651.42 | 1905.48 | 2286.58 | 2667.68 |
| Tudweiliog | 754.87 | 880.69 | 1006.50 | 1132.31 | 1383.93 | 1635.56 | 1887.18 | 2264.62 | 2642.06 |
| Tywyn | 764.68 | 892.13 | 1019.57 | 1147.02 | 1401.91 | 1656.81 | 1911.70 | 2294.04 | 2676.38 |
| Waunfawr | 754.13 | 879.82 | 1005.51 | 1131.20 | 1382.58 | 1633.96 | 1885.33 | 2262.40 | 2639.47 |
| Y Felinheli | 760.49 | 887.23 | 1013.98 | 1140.73 | 1394.23 | 1647.72 | 1901.22 | 2281.46 | 2661.70 |
| Y Ganllwyd | 767.41 | 895.32 | 1023.22 | 1151.12 | 1406.92 | 1662.73 | 1918.53 | 2302.24 | 2685.95 |